

Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg CÔD YMDDYGIAD



Uned Cludiant y Cyngor:

01267 234567



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



WLGA • CLILC

Tudalen

Ein Hymrwymiad Ni	3-4
Côd Ymddygiad Rhieni	5-6
Canllaw i rieni a Côd Ymddygiad wrth Deithio LC	8-11

Ein Hymrwymiad Ni

Mae'r Cyngor yn bwriadu darparu trafndiaeth i ddysgwyr pan mae ganddynt gyfrifoldeb statudol i wneud hynny i ddisgyblion sy'n teithio i ac o le perthnasol fel y pennir gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn unol â Darpariaeth Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol 2014. Bydd natur y cludiant a ddarparwyd gan y Cyngor ar ffurf mae'r Cyngor yn ei ystyried na fydd yn achosi gofid, straen nag anhawster i'r graddau a fyddai'n atal disgyblion/myfyrwyr rhag elwa o'r addysg sydd ar gael. Dylai disgyblion/myfyrwyr fod yn gallu teithio'n ddiogel ac yn gymharol gysurus. Byddwn yn cymryd camau rydym yn eu hystyried yn angenrheidiol i fodloni ein hunain o addasrwydd y cerbydau a'r gyrwyr/cynorthwyrwyr teithwyr.

- Bydd gan rieni, ysgolion/colegau a chontractwyr fynediad at gyngor a chymorth yn ystod oriau swyddfa.
- Lle y bo'n bosibl, fel arfer caiff pasiau sydd eu hangen i deithio eu dosbarthu o fewn 15 diwrnod gwaith o gael cais wedi'i gymeradwyo, ac eithrio ar ddechrau'r flwyddyn academaidd lle y bydd pob awdurdod yn dosbarthu'r pasiau yn unol â'i weithdrefn ei hun.
- Bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd unrhyw offer arbennig, fel harneisiau neu seddau, yn cael eu darparu gan naill ai'r Cyngor, Gweithredwyr neu y rhieni os ystyrir hyn yn angenrheidiol.
- Caiff llwybrau eu cynllunio er mwyn sicrhau'r amseroedd teithio lleiaf posibl, yn amodol ar ddarparu gwasanaeth effeithlon a chosteffeithiol.
- Bydd y Cyngor yn hwyluso gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) er mwyn sicrhau bod gyrwyr a chynorthwyrwyr teithwyr yn addas ar gyfer swydd sy'n cynnwys cludo plant.

- Caiff bathodynau adnabod eu paratoi a'u dosbarthu i yrwyr a chynorthwyrwr teithwyr cymeradwy, a disgwylir iddynt eu harddangos bob amser.
- Bydd diogelwch a safon gwasanaethau cludiant ysgol a llwybrau'n cael eu monitro yn rheolaidd.
- Mae'n bosibl y bydd teledu cylch cyfyng (CCTV) yn cael eu gosod ar gerbydau a ddefnyddir ar gyfer cludiant ysgol. Bydd y darnau ffilm yn cael eu trin yn gyfrinachol, ond gellir eu defnyddio fel tystiolaeth mewn achosion o gamymddwyn neu gamymddygiad.

Yn unol â chanllawiau statudol Cod Ymddygiad wrth Deithio Cymru, byddwn yn:

- Gweithio gyda chontractwyr, rhieni, disgyblion a'r ysgolion/colegau i ddatrys unrhyw broblemau ymddygiad posibl ar wasanaethau trafndiaeth ysgolion/colegau.
- Sicrhau fod gweithredwyr a gyrwyr/chynorthwyrwr teithwyr yn gyfarwydd â chynnwys y Cod Ymddygiad wrth Deithio drwy hyfforddiant penodol.
- Gweithio gydag ysgolion/colegau i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ymddygiad da a chanlyniadau methu â chydymffurfio a'r Cod Ymddygiad wrth Deithio drwy hyfforddiant Diogelwch Bws i staff a disgyblion.
- Mynnu bod digwyddiadau sy'n digwydd ar Drafnidiaeth Ysgol/Coleg yn cael eu hadrodd i'r Cyngor sy'n darparu'r drafnidiaeth.
- Cynnal cofnod o bob digwyddiad, archwilio pob digwyddiad ar y cyd â'r ysgol a phartion perthnasol eraill, a chosbi pan fo hynny'n briodol.

Côd Ymddygiad Rhieni

- Mae rhieni, gwarcheidwaid a/neu ofalwyr yn gyfrifol am annog ymddygiad da a sicrhau bod eich plentyn yn cydymffurfio â Chôd Ymddygiad wrth Deithio Llywodraeth Cymru.
Felly, disgwylir i chi gefnogi'r Cyngor, yr ysgolion/colegau, a'r gweithredwyr a'u staff i gynnal ymddygiad da.
- Mewn perthynas ag atal a delio gyda Bwlio, rydym yn dilyn cyfarwyddyd penodol fel y'i gosodir yn 'Parchu Eraill: Agenda Gwrth-fwlio' a 'Fframwaith Troseddau Casineb'.
- Os yw eich plentyn yn rhan o ymddygiad gwael ar gludiant ysgol byddwch yn cael gwybod am y broses ddisgyblu cyn gynted ag y bo modd.
- Dylai fod yn hollol glir o'r cychwyn, mewn achosion o ymddygiad gwael y cam eithaf fyddai dwyn yr hawl i dderbyn cludiant oddi arnoch. Yn yr achosion hyn, chi fydd yn gyfrifol wedyn am drefnu cludiant a thalu'r gost lawn amdano. Darllenwch y Canllaw i rieni am fwy o wybodaeth.
- Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau diogelwch eich plant wrth gyrraedd y lleoliad lle ceir trafniadaeth i'r ysgol yn y bore ac wrth gyrraedd adref o'r lleoliad hwnnw yn y prynhawn/gyda'r nos. Felly dylid gwneud trefniadau goruchwyliaeth briodol, yn enwedig ar gyfer disgyblion cynradd.
- Dylai eich plentyn adael y tŷ yn y boreau mewn digon o amser i gyrraedd y bws fel nad oes angen brysio, yn enwedig os oes angen croesi ffordd.
- Yn ogystal, dylech sicrhau bod eich plentyn yn gwisgo dillad priodol.
- Yn y prynhawn/gyda'r nos, dylai plant y mae'n rhaid iddynt groesi'r ffordd ar ôl dod oddi ar y bws aros tan y bydd y bws wedi gadael cyn ceisio croesi er mwyn iddynt allu gweld traffig arall ac er mwyn i draffig arall allu eu gweld nhw. Os ydych yn cwrdd â'ch plentyn, dylech aros wrth yr arosfan, ac nid yr ochr arall o'r ffordd.
- Fel rheol, yn y prynhawn/gyda'r nos bydd disgybl cynradd yn cael ei ollwng ger ei arosfan benodedig. Os digwydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau arferol, am ba reswm bynnag, dylech roi gwybod i'r gyrrwr neu'r cynorthwydd teithwyr (os oes un).
- Rhowch wybod i Uned Cludiant y Cyngor am unrhyw gyflwr meddygol sydd gan eich plentyn a fyddai, o bosibl, yn effeithio ar ei gludiant/ei chludiant.

- Yn achos disgyblion a gaiff eu hebrwng i'w man gollwng yn y prynhawn/gyda'r nos ac y bydd rhiant/gwarcheidwad yno i'w casglu fel arfer, os na fydd unrhyw un yno i'w casglu, rhoddir y weithdrefn ganlynol ar waith –
 - i. Bydd y gyrrwr yn aros hyd at 5 munud i'r rhiant/gwarcheidwad gyrraedd. Os na fydd unrhyw un wedi cyrraedd o hyd i gasglu'r plentyn, bydd yn rhoi gwybod i Uned Drafnidiaeth y Cyngor a'i Weithredwr Trafnidiaeth am y sefyllfa, ond yn y cyfamser, bydd yn cadw'r disgybl(ion) ar y cerbyd ac yn gweithredu'r gwasanaeth ar hyd ei llwybr penodedig er mwyn peidio ag achosi oedi i unrhyw ddisgyblion eraill ar y cerbyd.
 - ii. Ar ôl cwblhau'r llwybr, bydd y gyrrwr yn ffonio Uned Drafnidiaeth y Cyngor a'i Weithredwr Trafnidiaeth i gael cyfarwyddiadau pellach. Os na ellir cysylltu â'r rhiant/gwarcheidwad i gael cyfarwyddiadau pellach, bydd y gyrrwr yn cysylltu â'r heddlu ar 101.
- Rhowch wybod yn syth i Uned Cludiant y Cyngor am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau, fel newid yn eich cyfeiriad. Os nad oes angen tocyn bws bellach, dylid ei ddychwelyd at y Cyngor. Mae'n bosibl y byddai defnyddio'r cerdyn bws pan nad yw bellach yn ddilys yn cael ei ystyried yn dwyll.
- Mewn achosion o dywydd garw neu amgylchiadau anrhwngedig, y mae'n bosib y ceir newidiadau dros dro i'r drafnidiaeth a ddarperir. Mewn rhai amgylchiadau, efallai na fydd yn bosib gweithredu taith o gwbl, neu fe weithredir rhan o'r daith yn unig.
- Os nad yw llwybr trafniadaeth ysgol/coleg yn gweithredu yn y bore o ganlyniad i gyflyrau tywydd garw, ond eich bod yn dewis mynd â'ch plentyn/plant i'r ysgol dros eich hunain, yna bydd gofyn i chi wneud trefniadau i gasglu eich plant/plentyn ar ddiwedd y diwrnod ysgol/coleg.
- Mae cardiau teithio'n gostus a byddwn yn codi tâl am eu hadnewyddu. Dylid rhoi gwybod ar unwaith i Uned Cludiant y Cyngor os ydych chi colli eich cerdyn teithio, a byddant yn eich cynghori ynglŷn â sut i gael un yn ei le.
- Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut y gellir gwella ein Côt Ymddygiad, anfonwch eich adborth at y Cyngor sy'n darparu'r cludiant.



CANLLAW I RIENI

I'r rhan fwyaf o ddysgwyr mae eu siwrneiau rhwng y cartref a'r ysgol yn mynd rhagddynt heb ddigwyddiad na phryder. Yn anffodus caiff rhai siwrneiau eu difetha gan ymddygiad gwael, ymddygiad sy'n tarfu ar eraill ac ymddygiad annerbyniol a all effeithio ar ddysgwyr a'r cyhoedd. Gall hyn fod yn fygythiad go iawn i ddiogelwch a gall ddwyn canlyniadau trasig.

Cod statudol sy'n nodi'r safonau ymddygiad y mae'n ofynnol i ddysgwyr eu cyrraedd ac sydd o ganlyniad yn hybu'r nod o ddiogelu dysgwyr yw'r Cod Ymddygiad wrth Deithio ('y Cod').

Mae'r Cod yn berthnasol i'r holl ddysgwyr hyd at 19 oed ac mae'n berthnasol i bob math o deithio i ac o'r ysgol neu'r coleg, pa un a yw'r trefniadau teithio'n cael eu gwneud gan awdurdod lleol ai peidio. Mae hyn yn cynnwys bysiau dan gontract, bysiau cyhoeddus, trenau cyhoeddus, cerdded, tacsis, sgwteri a beiciau modur, beicio a siwrneiau mewn ceir. Mae hefyd yn cynnwys siwrneiau rhwng ysgolion yn ystod y dydd, nid dim ond ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd.



Dylai'r Cod fod yn rhan o bolisiâu ymddygiad ysgol a gellir ymdrin ag unrhyw gamymddwyn ar y siwrne i ac o'r ysgol dan bolisiâu ymddygiad ysgolion unigol neu drwy orfodi'r Cod neu, mewn achosion difrifol iawn, gall yr heddlu ymdrin â'r mater.

Dylai rhieni dysgwyr sicrhau bod eu plant yn ymwybodol o'r Cod ac yn ei ddeall. Mae angen i rieni a dysgwyr fod yn ymwybodol o'r goblygiadau os nad yw dysgwr yn ymlynu wrth y Cod.

Gall awdurdod lleol dynnu hawl unigolyn i gludiant am ddim yn ôl, neu gallai ei ysgol roi cosb disgyblu i'r dysgwr. Os caiff cludiant ei dynnu'n ôl, cyfrifoldeb rhieni'r dysgwr yw trefnu cludiant addas i ac o'r safle dysgu.

Mae hefyd yn bwysig bod rhieni'n ymwybodol sut i hysbysu ynghylch ymddygiad gwael sy'n effeithio ar ddiogelwch a lles eu plentyn – er enghraifft, mewn achosion lle mae bwlio'n digwydd.

Gellir gofyn i rieni lofnodi Contractau Ymddygiad wrth Deithio. Contractau rhwng dysgwyr, rhieni, gweithredwyr cludiant ac awdurdodau lleol yw'r rhain. Maent wedi'u bwriadu i feithrin ymdeimlad o gydgyfrifoldeb am sicrhau diogelwch ac i wella diogelwch ar y siwrne rhwng y cartref a'r ysgol ar gludiant a neilltuwyd ar gyfer dysgwyr. Maent yn nodi pa ymddygiad a ddisgwylir gan bawb, gan gynnwys eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae rhieni a dysgwyr sy'n cael cludiant a neilltuwyd ar gyfer dysgwyr gan yr awdurdod lleol yn llofnodi'r contract i ddatgan y byddant yn cydymffurfio â'r Cod a'r Contract ac y gallai methu â gwneud hynny arwain at dynnu cludiant yn ôl. Mae awdurdodau lleol a gweithredwyr cludiant, yn eu tro, yn llofnodi'r contractau i gadarnhau'r camau gweithredu y byddant yn eu cymryd i sicrhau diogelwch ar y siwrne rhwng y cartref a'r ysgol

Mae gan rieni nifer o rolau

- Helpu eu plant i ddeall y Cod
- Helpu'r plant i hysbysu ynghylch digwyddiadau
- Annog eu plant i gydymffurfio â'r Cod er mwyn sicrhau bod cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn ddiogel i bawb
- Bod yn ymwybodol o'r sancsiynau os torrir y Cod, gan gynnwys tynnu cludiant i ac o'r ysgol yn ôl a mesurau eraill y gall ysgol eu cymryd os torrir polisi ymddygiad yr ysgol
- Y rhieni sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am bresenoldeb parhaus y dysgwr yn yr ysgol os tynnir y trefniadau cludiant yn ôl
- Cydweithredu gyda sefydliadau addysgol, gweithredwyr cludiant ac awdurdodau lleol
- Ymlynu wrth Gontractau Ymddygiad wrth Deithio a lofnodwyd
- Sicrhau bod y dysgwr yn deall y gofyniad i wisgo gwregys diogelwch

Sancsiynau

Os ymchwiliwyd i ddigwyddiad yr hysbyswyd yn ei gylch ac os penderfynwyd fod dysgwr wedi torri'r Cod, gall yr awdurdod lleol dynnu'r cludiant y mae'n ei ddarparu'n ôl. Cyn y gwneir penderfyniad i dynnu trefniadau teithio'n ôl, bydd y dysgwr a rhieni'r dysgwr yn cael y cyfle i gyflwyno sylwadau, y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu hystyried. Dylai rhieni gysylltu â'r awdurdod lleol i ganfod beth yw'r broses ar gyfer cyflwyno sylwadau gan y gall fod gan bob awdurdod broses wahanol.

Lle mae'r dysgwr yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir neu nas cynhelir neu uned cyfeirio disgyblion, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r ysgol ynghylch y penderfyniad i dynnu trefniadau teithio'n ôl. Mae'n rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad i dynnu cludiant ar gyfer dysgwr yn ôl i'r pennaeth o leiaf 24 awr cyn y caiff ei dynnu'n ôl gan nodi'r cyfnod pan fydd trefniadau teithio wedi'u tynnu'n ôl a'r rhesymau dros eu tynnu'n ôl.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad ysgrifenedig bod trefniadau teithio'n cael eu tynnu'n ôl i rieni'r dysgwr o leiaf 24 awr cyn y cânt eu tynnu'n ôl gan nodi'r cyfnod pan fydd trefniadau teithio wedi'u tynnu'n ôl a'r rhesymau dros eu tynnu'n ôl.

Dylai'r awdurdod lleol barhau i ddarparu cludiant nes bod y cyfnod pan fo'r cludiant wedi'i dynnu'n ôl yn dechrau. Fodd bynnag, gall fod achlysuron pan fo'n amhriodol i'r dysgwr barhau i deithio i'w safle dysgu yn ei ffordd arferol, yn enwedig os yw'n achosi risg o niwed i eraill. Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol drefnu cludiant arall addas.

Rhaid i'r cyfnod pan fo trefniadau teithio wedi'u tynnu'n ôl beidio â bod yn hwy na 10 diwrnod ysgol olynol, gan gynnwys lle mae'r rhain ar ddiwedd ac ar ddechrau tymhorau ysgol gwahanol. Rhaid i'r cyfnod pan fo trefniadau teithio wedi'u tynnu'n ôl beidio â golygu bod trefniadau teithio'r dysgwr wedi'u tynnu'n ôl am fwy na 30 diwrnod yn y flwyddyn ysgol pan gânt eu tynnu'n ôl.

Gall yr awdurdod lleol a'r ysgol benderfynu ei bod yn fwy priodol gosod sancsiynau dan bolisi ymddygiad yr ysgol. Ar y cyfan ni ddylid gosod sancsiynau ar ddysgwr am ddigwyddiad ar gludiant ar gyfer dysgwyr dan y Cod a pholisi ymddygiad yr ysgol.

Wrth ystyried a yw rhieni'r dysgwr yn gallu mynd ati'n rhesymol i wneud trefniadau eraill, dylid cydnabod y byddai tynnu trefniadau teithio ar gyfer dysgwr yn ôl ar y cyfan yn achosi anghyfleustra i rieni a dysgwyr. Nid yw anghyfleustra ynddo'i hun yn cael ei ystyried yn rheswm digonol dros beidio â thynnu cludiant yn ôl.

Nid oes proses apelio statudol ar gyfer penderfyniad i dynnu cludiant yn ôl gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, dylid trefnu bod gweithdrefnau cwynion awdurdodau lleol a pholisïau disgyblu sefydliadau addysgol ar gael i ddysgwyr a rhieni.



Y COD YMDDYGIAD WRTH DEITHIO AR FYSIAU YSGOL

I FOD YN DDIOGEL

- Pan fo'r bws yn cyrraedd, arhoswch iddo stopio cyn mynd arno
- Ewch ar y bws ac oddi ar y bws yn ofalus – mae gwthio neu ruthro'n gallu achosi damweiniau
- Dylech wastad wisgo eich gwregys diogelwch ac aros yn eich sedd am y siwrne gyfan – gallai achub eich bywyd
- Ar fws ysgol, arhoswch yn eich sedd am y siwrne gyfan
- Ar fws cyhoeddus, dewch o hyd i sedd os oes un ar gael
- Storiwch eich bag neu eiddo arall yn ddiogel ac allan o ffordd pawb
- Gadewch i'r gyrrwr yrru heb i unrhyw beth fynd â'i sylw yn ystod y siwrne
- Cymerwch ofal o'r bws
- Peidiwch byth â phoeri nac ysmegu
- Peidiwch byth â bod yn anfoesgar wrth ddysgwyr eraill na'r gyrrwr
- Peidiwch byth ag ymyrryd â theclynnau rheoli'r gyrrwr nac offer diogelwch
- Peidiwch byth â thafllu unrhyw beth yn y bws nac o'r bws
- Dim ond mewn argyfwng y dylech agor drysau neu allanfeydd y bws a pheidiwch â mynd oddi ar y bws nes ei fod wedi stopio
- Dylech wastad ddilyn cyfarwyddiadau'r gyrrwr neu'r cynorthwydd teithwyr
- Os bydd damwain, arhoswch ar y bws nes dywedir wrthyh am adael – ond gadewch y bws trwy'r allanfa fwyaf diogel os yw'n anniogel aros ar y bws
- Wrth groesi'r ffordd dewch o hyd i fan diogel lle gall yr holl yrwyr eraill eich gweld
- Dywedwch wrth athro/athrawes, rhiant neu'r gyrrwr am unrhyw ymddygiad gwael y byddwch yn ei weld